# PODE, Syr EDWARD JULIAN (1902 - 1968), cyfrifydd a diwydiannwr

**Enw:** Edward Julian Pode
**Dyddiad geni:** 1902
**Dyddiad marw:** 1968
**Priod:** Jean Pode (née Finlay)
**Rhiant:** Lilla Pode (née Telfer)
**Rhiant:** Edward Pode
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfrifydd a diwydiannwr
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Economeg ac Arian
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd 26 Mehefin 1902 yn Sheffield, mab Edward a Lilla (ganwyd Telfer) Pode. Addysgwyd ef ym Mount House, ger Plymouth, ac yn *H.M.S. Conway* ac ymunodd â'r llynges adeg Rhyfel Byd I. Yn 1926 cychwynnodd ar ei waith oes mewn diwydiant yng Nghymru pan ymunodd â chwmni Guest, Keen a Nettlefolds, Cyf. yn Nowlais fel cyfrifydd rhanbarthol. Pan unwyd GKN a chwmni Baldwins Cyf. yn 1930 daeth yn ysgrifennydd y cwmni newydd a'i ddyrchafu nes dod yn gyfarwyddwr trefniadol yn 1945. Er ei fod yn erbyn gwladoli'r diwydiant dur, darbwyllwyd ef yn 1947 i fod yn gyfarwyddwr Cwmni Dur Cymru, ac yn gadeirydd, 1962-67. O dan ei ddwylo daeth yn gwmni dur mwyaf Ewrob, a'r cynnyrch yn cynyddu o hanner miliwn tunnell o ddur y flwyddyn i dair miliwn. Bu'n aelod o'r pwyllgor gwaith ac yn llywydd (1962-64) Ffederasiwn Haearn a Dur Prydain, ac yn is-lywydd y Sefydliad Haearn a Dur. Cymerai ddiddordeb mawr mewn arbed tanwydd ac ysgrifennodd erthygl ar effeithlonrwydd tanwydd mewn diwydiant yn *Industrial Wales*, Mehefin 1952, gan ddod yn gyfarwyddwr, ac yna'n gadeirydd (1965), Gwasanaeth Effeithlonrwydd Diwydiannol Cenedlaethol. Cymerai ddiddordeb mewn llawer maes heblaw'r gwaith dur, a bu'n gadeirydd Corfforaeth Datblygu Cymru (1958) a chwmni Doc Sych Tywysog Cymru, Abertawe, ac yn gyfarwyddwr Banc Lloyd, ac enwi dim ond ychydig. Cafodd gymrodoriaethau perthynol i'w broffesiwn a diploma er anrhydedd. Cydnabuwyd ei gyfraniad i fywyd cyhoeddus pan wnaed ef yn siryf Morgannwg yn 1948 ac yn ynad heddwch yn 1951. Cafodd ryddfreiniaeth Port Talbot yn 1957 am effaith ei lwyddiant yn y gwaith dur ar ffyniant yr ardal. Urddwyd ef yn farchog ddydd Calan 1959. Ei allu i fynd yn union at graidd unrhyw fater, ei barodrwydd i wneud penderfyniad cadarn ar fyr rybudd, a'i ddawn i gael y gorau o'r rhai a weithiai oddi tano oedd y rhinweddau a gyfrannodd at ei lwyddiant nodedig. Un o'i ddiddordebau oedd ffermio ac yr oedd mor boblogaidd ymhlith ffermwyr Tresimwn ag ydoedd yn nhref Port Talbot.

Priododd yn 1930 â Jean Finlay merch F. Finlayson, Gwynfa, Caswell, Abertawe, a bu iddynt ddau o blant. Bu farw yn ei gartref, The Great House, Tresimwn, Morgannwg, 11 Mehefin 1968, a chladdwyd ef ym mynwent y plwyf.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Who was who?*

*Western Mail*, 7 ac 8 Mawrth 1957, 13 Mehefin 1968

*The Times*, 13 ac 18 Mehefin 1968

gwybodaeth gan ei fab John Pode


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738138


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu